**Rhif: WG47902**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cychwyn adran 156 Deddf Diogelwch Adeiladau'r DU 2022, yng Nghymru

## Newidiadau i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Gorffennaf 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN ddigiol 978-1-83504-390-5

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt, mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar gychwyn adran 156 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau'r DU 2022 yng Nghymru, a fydd, pan gaiff ei chychwyn, yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ('yr FSO'). Bydd y newidiadau hyn yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar y rheini sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân mewn adeiladau preswyl sy'n cynnwys dwy set neu ragor o anheddau domestig a'r rhan fwyaf o adeiladau annomestig eraill sy'n dod o dan yr FSO.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gwasanaethau Tân
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: fire@llyw.cymru

## Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori: Cychwyn adran 156 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 y DU yng Nghymru | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Cyflwyniad .................................................................................................... 3
Y broses ymgynghori ...................................................................................... 3
Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ........................................................ 4

**Cyflwyniad**

1. Mewn ymateb i dân Tŵr Grenfell roedd ein Papur Gwyn ar Adeiladau mwy diogel yng Nghymru ('Y Papur Gwyn') yn nodi cynigion ar gyfer diwygio deddfwriaeth yn gynhwysfawr er mwyn gwella diogelwch yr holl adeiladau preswyl aml-ddeiliadaeth yng Nghymru (y rheini sy'n cynnwys 2 set neu ragor o anheddau domestig), o'r cam dylunio ac adeiladu i'r cam meddiannu a sut maen nhw'n cael eu cynnal. Nod y cynigion oedd mynd i'r afael â'r problemau a ganfuwyd gan adolygiad Hackitt, Ymchwiliadau Tŵr Grenfell a'n Grŵp Arbenigwyr Diogelwch Adeiladau ni ein hunain.

2. At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i gynigion ein Papur Gwyn. Fodd bynnag, roeddem yn cydnabod yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, fod cwmpas ein trefn diogelwch adeiladau newydd arfaethedig yn eang ac y byddai'n cymryd amser i gyflawni rhai o'r diwygiadau. Ar ben hynny, byddai rhai o'r cynigion, yn enwedig y rhai yn ymwneud â'r cyfnod deiliadaeth, angen deddfwriaeth sylfaenol drwy'r Senedd, gan gynnwys ein cynigion i wella diogelwch tân yn yr adeiladau hyn. O ganlyniad, rydym wedi manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno rhai o'n cynigion diogelwch tân yn gynharach yng Nghymru, drwy Ddeddf Diogelwch Tân 2021 Llywodraeth y DU a gafodd ei chychwyn (h.y. daeth i rym) yng Nghymru ym mis Hydref 2021, ac yn awr drwy adran 156 y Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ('BSA'). Mae'r ddwy wedi gwneud newidiadau pwysig i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ('yr FSO') mewn perthynas â diogelwch tân, yr oedd ein Papur Gwyn ni yn ceisio eu gwneud.

3. Fodd bynnag, bydd yr olaf hefyd yn berthnasol i'r holl adeiladau annomestig (ac eithrio lle mae'r ddyletswydd newydd yn benodol berthnasol i anheddau domestig aml-ddeiliadaeth) y mae'r FSO yn berthnasol iddynt; o weithleoedd ac adeiladau cyhoeddus i dai llety, cartrefi symudol (lle maen nhw'n cael eu rhentu fel llety gwyliau) ac adeiladau ar rent dros dro tymor byr drwy wasanaethau fel AirBnB. Gyda hyn mewn golwg, gwnaethom benderfyniad i gynnal ymgynghoriad 12 wythnos arall i ofyn am farn ynghylch pryd i ddechrau'r newidiadau pellach hyn i'r FSO yng Nghymru.

4. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2023, yn unol â'r dyddiad cychwyn arfaethedig yn Lloegr. Pan ddaw i rym, bydd adran 156 o'r BSA 2022 yn gosod dyletswyddau newydd ar bersonau cyfrifol, fel y crynhoir ym mharagraff 19 isod. Am y rhesymau a nodir yn yr ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu gohirio cychwyn adran 156(4) sy'n ymwneud ag aseswyr risg tân cymwys, ond serch hynny rydym wedi gofyn am farn ar y penderfyniad hwnnw. Bydd hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn ein hymateb i gwestiynau 3 a 4 isod.

**Y broses ymgynghori**

5. Cyhoeddwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar wefan Llywodraeth Cymru ar 24 Chwefror ac roedd ar agor ar gyfer ymatebion tan 19 Mai. Gofynnwyd 6 chwestiwn penodol gan gynnwys ynghylch y Gymraeg, gyda chwestiwn agored terfynol lle gwahoddwyd ymatebwyr i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol nad oedd wedi'i chynnwys yn y cwestiynau. Roedd opsiwn i ymateb i'r ymgynghoriad drwy lenwi ffurflen ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post.

6. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 25 ymateb i'r ymgynghoriad, gan y sefydliadau canlynol:

- 3 o'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru
- 1 gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân
- 5 o Awdurdodau Lleol Cymru
- 6 o'r sector tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat
- 2 gan gyrff proffesiynol
- 4 gan fusnesau gweithgynhyrchu
- 1 gan fusnesau twristiaeth
- 3 gan aelodau o'r cyhoedd

7. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i bawb a ymatebodd.

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

8. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i bob un o'r cwestiynau penodol ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

**<u>Cwestiwn 1:</u> Ydych chi'n 'berson cyfrifol' at ddibenion Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005?**

9. O'r 25 a ymatebodd i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd 9 eu bod yn 'berson cyfrifol' at ddibenion yr FSO, gyda'r 16 arall yn cadarnhau nad oeddent. O'r 16 nad oeddent yn 'berson cyfrifol', roedd 1 yn cynrychioli asiantau eiddo y gellid eu hystyried yn unigolion cyfrifol ac roedd 1 yn ymateb ar ran ei aelodau, llawer ohonynt yn rhedeg busnesau sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

10. Gofynnodd Llywodraeth Cymru y cwestiwn hwn er mwyn penderfynu a oedd gwahaniaeth barn rhwng 'person cyfrifol' y byddai'r newidiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol arno ac ymatebydd nad oedd yn 'berson cyfrifol'. I'r gwrthwyneb, roedd yr ymatebion i bob cwestiwn yn amrywio ar draws y cnewyllyn o ymatebwyr, heb unrhyw ymateb cyffredin gan 'bersonau cyfrifol' yn gyffredinol nac oddi wrth y rheini nad oeddent yn 'berson cyfrifol'.

**<u>Cwestiwn 2a:</u> A ydych yn rhagweld unrhyw anawsterau neu rwystrau i bersonau cyfrifol wrth gyflawni'r dyletswyddau newydd a amlinellir yn yr ymgynghoriad, o fis Hydref 2023 ymlaen?**

**<u>Cwestiwn 2b:</u> Os ydych chi wedi ateb 'ydw', eglurwch beth yn eich barn chi yw'r anawsterau hynny a beth, yn eich barn chi, fyddai amserlen resymol ar gyfer rhoi'r rhain mewn grym.**

11. O'r 25 ymateb a gafwyd, nid oedd 8 ymatebydd o'r farn bod unrhyw anawsterau neu rwystrau y gellir eu rhagweld i bersonau cyfrifol wrth gyflawni'r dyletswyddau newydd

a osodir drwy gychwyn adran 156 o’r BSA ar 1 Hydref 2023. Roedd hyn yn cynnwys 1 o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru, 1 awdurdod lleol, 3 o’r sector tai, 1 corff proffesiynol, 1 o’r sector gweithgynhyrchu ac 1 unigolyn. O’r 17 arall, roedd 1 yn ansicr, 1 heb ateb y cwestiwn ac roedd y 15 arall yn credu y byddai personau cyfrifol yn profi rhai problemau, ac mae’r rhain wedi eu crynhoi isod. Er bod Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC) wedi ymateb gan ddweud ei fod yn ‘ansicr’, nid oedd o’r farn bod y gofynion newydd yn anghymesur o feichus. Roedd yn credu bod y gofynion newydd naill ai’n estyniad i’r hyn oedd eisoes yn ofynnol neu’n ffurfioli’r hyn a oedd, mewn sawl achos, eisoes yn cael ei wneud; a lle’r oedd y gofynion yn gwbl newydd, roedd o’r farn mai cyfyngedig oedd natur y rhain.

12. Roedd dau o’r awdurdodau lleol a oedd ag amheuon o’r farn mai dim ond yn ystod y cam gweithredu cychwynnol y byddai anawsterau. Roedd un o’r awdurdodau lleol o’r farn bod y dyletswyddau eisoes yn cael eu cyflawni i raddau yn y rhan fwyaf o achosion. Awgrymodd yr awdurdod lleol arall fod angen newid diwylliannol yn y diwydiant ar y sail nad oedd gan rai personau cyfrifol lawer o ddealltwriaeth na pharodrwydd i gymryd rhan yn weithredol. Awgrymodd yr awdurdod lleol hwn amserlen o 12 mis i wreiddio newid mewn diwylliant.

13. Roedd y 13 arall yn cynnwys ymatebion gan y 2 Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru. Er bod y newidiadau’n cael eu croesawu, cododd y ddau Awdurdod Tân ac Achub bryderon ynghylch y person cyfrifol; un am anawsterau o ran dod o hyd i’r person cyfrifol mewn eiddo preswyl oherwydd modelau perchnogaeth a’r llall ynghylch gwneud y person cyfrifol yn ymwybodol o’i ddyletswyddau newydd, yn enwedig y rheini nad oedd yn rhaid iddynt gofnodi asesiad risg tân o dan yr FSO ar hyn o bryd. Roedd gan un unigolyn farn debyg hefyd.

14. Roedd un o’r cyrff proffesiynol hefyd o'r farn ei bod yn aml yn anodd canfod pwy oedd y person cyfrifol ar gyfer adeilad. Awgrymodd y sefydliad hwnnw hefyd fod achosion lle nad oedd y person cyfrifol yn ymwybodol ei fod wedi cael ei benodi i’r rôl a chredai mai’r prif rwystr i berson cyfrifol gyflawni ei ddyletswyddau oedd nad oedd yn glir mewn deddfwriaeth pwy ddylai’r person cyfrifol fod. Cyfeiriodd yr un sefydliad at ganllawiau Llywodraeth y DU ar rolau a chyfrifoldebau personau cyfrifol, a oedd yn eu barn hwy yn amhenodol a heb fod yn ddigon pendant ynghylch pwy ddylai’r person cyfrifol fod. Awgrymodd y sefydliad hwn hefyd y dylid ystyried person cyfrifol ‘diofyn’ mewn achosion lle nad oedd person cyfrifol wedi’i benodi’n benodol.

15. O’r 9 ymatebydd arall a fynegodd farn y byddai anawsterau i berson cyfrifol wrth gyflawni’r dyletswyddau newydd o fis Hydref 2023 ymlaen, mynegodd pedwar (3 o fusnesau gweithgynhyrchu ac 1 unigolyn), bryderon ynghylch diffyg aseswyr risg tân cymwys, gyda’r unigolyn o’r farn nad oedd gan bersonau cyfrifol y gallu i adnabod cymhwysedd. Roedd yr unigolyn hwnnw hefyd yn ystyried bod yr oedi cyn cychwyn Erthyglau 9A(1) a 9A(2) o’r FSO fel y’u diwygiwyd yn gamgymeriad. Mynegodd yr NFCC bryderon tebyg yn ei ymateb, gan dynnu sylw at yr heriau y mae personau cyfrifol yn eu hwynebu ar hyn o bryd o ran dod o hyd i aseswyr risg tân addas. Mae hyn yn adlewyrchu un arall o’n cynigion (gweler cwestiynau 3 a 4 isod).

16. Mynegodd dau o’r 5 ymatebydd a oedd ar ôl (1 awdurdod lleol ac 1 o’r sector tai) bryderon y gallai rhai o’r newidiadau newydd fod yn feichus i bersonau cyfrifol, yn enwedig lle’r oedd ganddynt bortffolio tai mawr. Awgrymodd yr awdurdod lleol

opsiwn i ddirprwyo i berson priodol sy'n is na'r Prif Weithredwr ac y dylid rhagnodi hynny mewn deddfwriaeth. Er bod yr ymatebydd o'r sector tai wedi ymrwymo i ymgysylltu â'i gwsmeriaid  a rhoi gwybod iddynt am faterion diogelwch tân allweddol, roedd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried, wrth ragnodi pa mor aml ac ym mha ffurf y dylid darparu gwybodaeth am ddiogelwch tân i breswylwyr mewn rheoliadau, na ddylai'r gofynion hynny fod yn feichus.

17. Awgrymodd yr un ymatebydd y dylid darparu gwybodaeth am ddiogelwch tân i breswylwyr drwy dudalen we, i'w defnyddio gan breswylwyr yn ôl yr angen, gan ddarparu copi caled o wybodaeth i'r preswylwyr hynny na allent gael gafael arni ar-lein. Roedd hefyd o'r farn y gallai darparu gwybodaeth yn rhy aml ac i'r holl breswylwyr pan nad oeddent wedi gofyn amdani, arwain at orlwytho gwybodaeth ac effaith ar ein hôl troed carbon. Cyfeiriodd yr un ymatebydd at reoliadau 9 a 10 Rheoliadau Diogelwch Tân (Lloegr) 2022 a chadarnhaodd ei fod, yn unol â'r rheini, yn datblygu strategaeth ymgysylltu i ddarparu gwybodaeth allweddol am ddiogelwch tân i'w gwsmeriaid yn flynyddol ac ar sail cyswllt cyntaf.

18. Roedd gan ddau o'r 3 ymatebydd a oedd yn weddill (1 awdurdod lleol ac 1 o'r sector tai) a fynegodd amheuon, bryderon ynghylch asesiadau risg tân; un yn ymwneud â sicrhau cymhwysedd mewn asesiadau risg tân a'r llall yn awgrymu bod angen canllawiau ar ba fanylion y dylid eu rhannu o'r asesiad risg, gan gynnwys amserlenni gofynnol i bersonau cyfrifol rannu'r wybodaeth honno. Yn ei ymateb, awgrymodd yr NFCC hefyd ganllawiau i gefnogi personau cyfrifol i gydymffurfio â'r gofynion newydd, yn benodol lle nad oedd y person cyfrifol wedi'i leoli yn y DU ac nad oedd cynrychiolydd yn y DU. Roedd yr olaf o'r ymatebwyr a fynegodd amheuon yn dod o'r sector tai. Roedd yn teimlo bod adeiladau aml-ddeiliadaeth a'u newid defnydd yn aml eisoes yn heriol i bobl gyfrifol; gyda rhai tenantiaid ddim yn ymgysylltu'n weithredol nac yn cymryd diogelwch tân o ddifrif. Teimlai hefyd fod diffyg cefnogaeth gan y gwasanaethau tân ac achub.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

19. Credwn fod y newidiadau i'r FSO yn synhwyrol ac y byddant yn gwella diogelwch; ac y dylent felly gael eu rhoi mewn grym yn brydlon.  Gan fod llawer o fusnesau'n gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr, rydym hefyd yn credu y byddai'n ddoeth cychwyn adran 156 o'r BSA 2022 ar yr un pryd ag y bydd yn cychwyn yn Lloegr er mwyn osgoi unrhyw ddryswch rhwng personau cyfrifol am yr adeiladau hynny. Ar sail hynny, ein cynnig yw dechrau'r newidiadau ar 1 Hydref 2023. Pan fydd y dyletswyddau newydd yn dechrau, bydd angen:

- i bob person cyfrifol wneud cofnod o'i asesiad risg tân ac adolygiadau;
- pan fo person cyfrifol yn peidio â bod yn berson cyfrifol ar gyfer safle a bod person arall yn cymryd drosodd fel person cyfrifol ar gyfer y safle, rhaid i'r person sy'n ymadael roi i'r person cyfrifol newydd unrhyw wybodaeth berthnasol o ran diogelwch tân sydd ganddo am yr adeilad;
- os oes gan adeilad ddwy set neu ragor o anheddau domestig, rhaid i'r person cyfrifol roi gwybodaeth i'r preswylwyr am "faterion diogelwch tân perthnasol", sy'n cynnwys risgiau a nodwyd, mesurau ataliol ac amddiffynnol ac enw a chyfeiriad yn y DU ar gyfer y person cyfrifol;

- os oes mwy nag un person cyfrifol ar gyfer adeilad, eu bod yn cydweithredu â'i gilydd gan gynnwys darparu eu henw a chyfeiriad yn y DU.

20. Rydym yn cynnig gohirio'r gofyniad, pan fydd personau cyfrifol yn penodi rhywun i gynorthwyo gydag asesiad neu adolygiad risg tân, ei bod yn rhaid iddynt sicrhau bod y person hwnnw yn berson cymwys, hyd nes y sefydlir y polisi ar gyfer hynny. Mae rhagor o fanylion am ein rhesymau dros hyn yn cael sylw yng nghwestiynau 3 a 4.

21. Rydym yn cydnabod y materion a godwyd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub o ran dod o hyd i unigolion cyfrifol ar gyfer adeiladau preswyl a'r angen i'w gwneud yn ymwybodol o'r dyletswyddau newydd hyn. Fodd bynnag, nid ydym yn credu ei fod yn rheswm dros beidio â dechrau'r newidiadau pwysig hyn i'r FSO. Mae dyletswyddau eisoes yn bodoli ar gyfer personau cyfrifol yn yr FSO, ac mae'r newidiadau hyn yn estyniad i'r dyletswyddau hynny. Ni fydd oedi cyn dechrau yn newid unrhyw faterion sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran dod o hyd i bersonau cyfrifol.

22. Ymgynghorwyd ar y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn, lle maent yn ymwneud â safleoedd sy'n cynnwys dwy set neu ragor o adeiladau domestig, yn ein Papur Gwyn yn 2021, a dderbyniodd gefnogaeth gref i'r cynigion. Er y bydd newidiadau a gyflwynir gan adran 156 o'r BSA hefyd yn berthnasol i'r mwyafrif o'r holl eiddo annomestig arall hefyd, bydd eisoes yn ofynnol i rai o'r busnesau mwy gofnodi asesiad risg tân; os ydynt wedi'u trwyddedu – e.e. tafarnau a bwytai, neu os oes ganddynt bump neu ragor o weithwyr, neu os oes hysbysiad addasu yn ei le ar yr adeilad sy'n gwneud hyn yn ofynnol. Er bod nifer o ymatebwyr wedi ateb 'ydw' i'r cwestiwn hwn, nid yw'r rhesymau sy'n cefnogi'r penderfyniadau hynny, yn ein barn ni, yn darparu unrhyw achos cryf dros ohirio cychwyn adran 156 (ac eithrio adran 156(4)), ym mis Hydref. Ar ben hynny, nid oedd nifer o'r ymatebwyr wedi darparu barn ategol a oedd yn benodol i gwestiynau 2a a 2b.

23. Roedd rhai o'r rhai a ymatebodd gydag amheuon ond yn rhagweld y byddai anawsterau i bersonau cyfrifol yn ystod y cam gweithredu, gan gydnabod, fel y gwnawn ni, bod y rhan fwyaf o'r dyletswyddau newydd eisoes yn digwydd yn ymarferol. Mynegodd eraill bryderon ynghylch y diffyg aseswyr risg tân cymwys, gydag un unigolyn o'r farn na ddylid gohirio'r gofyniad i ddefnyddio asesydd risg tân cymwys yn unig; bydd ein hymateb i hyn yn cael sylw yng nghwestiynau 3 a 4.

24. Roedd rhai ymatebwyr eraill a fynegodd amheuon yn credu bod angen canllawiau i gefnogi personau cyfrifol i gyflawni'r dyletswyddau newydd hyn, gan gynnwys ar gyfer cofnodi asesiad risg tân. Rydym yn cytuno; a byddwn yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi personau cyfrifol gyda'r newidiadau hyn cyn cychwyn. Byddwn hefyd yn cyhoeddi Rhestr Wirio Asesiad Risg Tân i helpu personau cyfrifol i gwblhau asesiad risg tân ynghyd â chyfres o ganllawiau diogelwch tân byr yn ymwneud â safleoedd penodol; gyda chanllawiau manylach i'w dilyn ar ôl hynny.

25. O ran dirprwyo, mae'n gyffredin wrth gwrs i'r dyletswyddau a osodir ar sefydliad gael eu dirprwyo i'w weithwyr a'u cyflawni ganddynt. Gallai hynny ddigwydd yma hefyd, ac nid ydym yn credu bod angen awdurdodiad statudol penodol.

26. O ran yr awgrym o droi at sefyllfa o ystyried person cyfrifol 'diofyn' mewn achosion lle nad oedd person cyfrifol wedi'i benodi'n benodol, rydym yn credu bod yr FSO

eisoes yn rhagnodi sefyllfa ddiofyn. Mae’n nodi, ar gyfer gweithle, mai’r person cyfrifol yn gyffredinol fyddai’r cyflogwr; ac ar gyfer unrhyw safle arall, byddai naill ai’r person a oedd â rheolaeth dros y safle lle mae’n masnachu neu’n rhedeg ei fusnes ohono neu berchennog y safle (mae Erthygl 3 yr FSO yn rhoi rhagor o fanylion).

27. Yn gyffredinol, nid ydym yn credu bod yr ymatebion a gawsom i gwestiynau 2a a 2b yn rhoi rheswm i ni beidio â chychwyn adran 156 (ac eithrio adran 156(4)) ar 1 Hydref 2023, ac felly byddwn yn bwrw ymlaen ar y sail honno.

**Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw farn am yr hyn a olygir wrth asesydd risg tân cymwys a’r mathau o gymwysterau y byddai eu hangen arnynt i fod yn gymwys?**

**Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw farn ynghylch pryd y dylem ddechrau’r gofyniad bod unrhyw un a benodir i gynnal asesiad risg tân yn berson cymwys?**

28. Roedd cefnogaeth unfrydol bron i’r cynnig yn ein Papur Gwyn mai dim ond rhywun sydd â chymwysterau a phrofiad addas ddylai gynnal asesiad risg tân. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen eglurder ynghylch y mathau o gymwysterau a fyddai’n briodol. Roeddem yn cytuno, ac yn cynnig nodi hynny mewn rheoliadau yn y dyfodol, gan adeiladu ar y cymwysterau a’r cynlluniau achredu presennol, ac ar waith arall a wneir gan y sector diogelwch tân.

29. Mae gwaith i ddatblygu’r manylion hynny’n mynd rhagddo, mewn trafodaeth â Llywodraeth y DU ac arbenigwyr yn y diwydiant. Am y rheswm hwnnw, rydym yn gohirio cychwyn adran 156(4) o Ddeddf Diogelwch Adeiladau’r DU 2022, yng Nghymru. Fodd bynnag, i gefnogi’r trafodaethau parhaus hynny, roeddem yn credu y byddai’n fuddiol casglu barn rhanddeiliaid am yr hyn y maent yn credu y dylai asesydd risg tân cymwys fod, a’r mathau o gymwysterau y mae angen i aseswyr risg tân eu cael, er mwyn bod yn gymwys. Cyflwynodd ugain o ymatebwyr eu barn. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau bod cymhwysedd yn fesuradwy drwy brofiad, yn aml wedi’i gyfuno â chymwysterau, gyda llawer o’r farn y byddai angen ystyried maint a chymhlethdod adeilad hefyd wrth fesur a oedd rhywun yn gymwys. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd fod ennill cymhwysedd drwy fod yn aelod o IFE yn feincnod da yn ogystal â’r angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus. Ar y llaw arall, roedd un ymatebydd o’r farn y gallai bod yn rhy gyfarwyddol achosi problemau i aseswyr risg tân cymwys profiadol a allai fod heb gymwysterau ffurfiol. Byddwn yn ystyried y rhain i gyd fel rhan o’n trafodaethau parhaus, a bydd y canlyniad yn destun ymgynghoriad pellach.

30. Fe wnaethom hefyd holi am farn ynghylch pryd y dylem ddechrau’r gofyniad bod unrhyw un a benodir i gynnal asesiad risg tân yn berson cymwys. O’r 21 a ymatebodd, teimlai bron i hanner nad oedd rheswm dros oedi cyn dechrau’r gofyniad ac y dylid ei gyflwyno cyn gynted â phosibl, neu gyda chyfnod pontio. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys y 3 Awdurdod Tân ac Achub (er bod 1 yn cydnabod ei fod yn afrealistig), 2 o’r sector tai, 1 o’r sector gweithgynhyrchu, 1 o dwristiaeth, corff proffesiynol ac unigolyn. Yn olaf, roedd gweddill yr ymatebwyr yn cytuno â’n penderfyniad i ohirio cychwyn adran 156(4) gan awgrymu cyfnod rhagarweiniol o

chwe mis i flwyddyn, neu ar yr adeg hynny pryd y bydd digon o aseswyr risg tân cymwys ar gael i gynnal yr asesiadau; a chyflwyno'r gofynion ar yr un pryd â Lloegr i sicrhau cysondeb.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

31. Rydym yn cydnabod ei bod yn ofynnol i bersonau cyfrifol benodi dim ond aseswyr risg tân sy'n gymwys er mwyn sicrhau diogelwch tân yn ein hadeiladau, ac mai cyflwyno'r gofyniad yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach fyddai'r dewis gorau. Fodd bynnag, gallai fod yn anodd i bersonau cyfrifol gydymffurfio â'r gofyniad hwn pe baem yn ei gyflwyno ym mis Hydref. Yn hytrach, credwn y byddai'n fwy buddiol penderfynu beth a olygir gan berson cymwys a'r cymwysterau y byddai eu hangen arnynt, cyn nodi hynny mewn rheoliadau. Roedd hanner y rhai a ymatebodd yn cytuno.

32. Pery'r rheidrwydd i bersonau cyfrifol wneud asesiad addas a digonol o'r risgiau tân yn eu hadeiladau a dylent barhau i sicrhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, bod unrhyw unigolyn y maent yn ei benodi i gynnal asesiad risg tân o'u hadeilad, yn gallu gwneud hynny'n gymwys. Yn ddelfrydol, byddai hynny'n golygu rhywun a oedd â chymwysterau ffurfiol, a/neu gwmni a oedd wedi'i achredu'n briodol.

**<u>Cwestiwn 5:</u> Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, a lliniaru'r effeithiau negyddol?**

**<u>Cwestiwn 6:</u> Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

33. Nid oedd dros chwarter yr ymatebwyr wedi rhoi unrhyw farn ar gwestiynau 5 a 6. O'r rhai a ymatebodd, roedd hanner o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael fawr o effaith, os o gwbl, ar y Gymraeg, nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd dau ymatebydd yn cefnogi eu barn ar y sail na fyddai unrhyw effaith negyddol ar yr amod bod gwybodaeth yn cael ei darparu'n ddwyieithog. Roedd un arall o'r farn ei bod yn debygol y byddai nifer cyfyngedig o hyfforddwyr yng Nghymru, er eu bod yn teimlo y gallai oedi 12 mis cyn cychwyn adran 156(4) helpu'r adnodd cyfyngedig.

34. Roedd y farn a fynegwyd gan yr ymatebwyr a oedd yn weddill yn ymwneud â'r diffyg tebygol o aseswyr risg tân cymwys a allai gynnal asesiadau risg tân yn Gymraeg, y posibilrwydd o danseilio negeseuon diogelwch tân pwysig drwy siaradwyr Cymraeg llai rhugl a chynnydd yn y costau sy'n gysylltiedig â chyfieithu a chyhoeddiadau dwyieithog. I'r gwrthwyneb, roedd rhai o'r farn y gallai ddarparu mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a chyfieithwyr.

35. Roedd y farn ynghylch sut y gellid llunio neu newid y dyletswyddau newydd i gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn cynnwys awgrymiadau y dylai unrhyw achrediad/cofrestr o aseswyr risg tân gynnwys a yw'r person hwnnw'n siaradwr Cymraeg ac i ba lefel, a therfyn amser estynedig pe na bai person cyfrifol yn gallu sicrhau gwasanaethau siaradwr Cymraeg neu gyfieithydd i gynhyrchu asesiad risg tân yn Gymraeg, gan gynnwys lle rhoddwyd hysbysiad gorfodi. Roedd safbwyntiau eraill yn cynnwys gofyniad i gynhyrchu gwybodaeth yn ddwyieithog mewn rhannau o Gymru lle'r oedd poblogaeth uchel o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a chael opsiwn fforddiadwy i gyfieithu asesiadau risg tân presennol yn Gymraeg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

36. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na ddylid ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Felly, dylid darparu unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn y ddwy iaith, oni fo cais penodol nad oes angen fersiwn Gymraeg. Bydd Llywodraeth Cymru a'i chontractwyr yn cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r dyletswyddau a nodir yn Safonau'r Gymraeg, a osodir ar Weinidogion Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd disgwyl i unrhyw gorff sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n cyhoeddi gwybodaeth gydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol hefyd wrth gyhoeddi gwybodaeth. Bydd y dogfennau cyfarwyddyd diogelwch tân byr y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn y ddogfen hon yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

37. Mae'r diwygiadau i'r FSO yr ydym yn eu dwyn i rym yn cynnwys y rhai sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau cyfrifol ar gyfer adeiladau preswyl ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch tân i breswylwyr. Er nad yw safonau'r Gymraeg o reidrwydd yn berthnasol i bob person o'r fath (e.e. landlordiaid yn y sector preifat), byddem serch hynny yn disgwyl iddynt ddarparu gwybodaeth i breswylwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg lle bo hynny'n bosibl (a, lle bo hynny'n briodol, mewn ieithoedd eraill hefyd). Mae cyngor diogelwch tân cyffredinol ar gael yn Gymraeg eisoes gan y Gwasanaethau Tân ac Achub. Er na chafodd y pwynt hwn ei godi'n benodol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn cynnwys cyfeiriad priodol ato yn y canllawiau ar ddyletswyddau newydd yr FSO, y byddwn yn eu cyhoeddi cyn bo hir.

38. Rydym yn gwerthfawrogi y gallai fod diffyg aseswyr risg tân cymwys sy'n gallu cynnal asesiad risg tân yn Gymraeg ac y gallai fod angen cyfieithydd a allai achosi oedi. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am allu'r sector i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan nad oes cofrestr ganolog o aseswyr risg tân ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae asesiad risg tân fel arfer yn cael ei baratoi at ddefnydd y rheolwyr yn unig; nid yw'n cael ei gyhoeddi. Felly byddai cynnal asesiad risg tân yn Gymraeg yn ôl disgresiwn person cyfrifol, ac yn ddarostyngedig i'w bolisïau mewnol ar ddefnydd iaith. Gan y bydd y rhan fwyaf o asesiadau risg tân yn cael eu cynnal neu eu hadolygu'n flynyddol, dylai personau cyfrifol gael amser i gynnwys unrhyw ofyniad o'r fath a oedd ganddynt yn y broses. O ran amserlen estynedig i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cyflwyno hysbysiadau gorfodi yn Gymraeg a/neu Saesneg yn unol â'u safonau iaith Gymraeg eu hunain. Nid ydym yn credu y byddai cyfiawnhad dros gynnig amser ychwanegol i ymgymryd â gwaith sy'n hanfodol i ddiogelwch ar y sail hon.

<u>Cwestiwn 7:</u> **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.**

39. Roedd gan bron i hanner y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ragor o faterion i'w codi. Roedd y materion hyn yn amrywiol iawn ac yn cael eu crynhoi isod. Lle darparwyd sylwadau ychwanegol mewn perthynas ag aseswyr risg tân cymwys, bydd y rheini'n cael eu hystyried fel rhan o'n trafodaethau parhaus ar gyfer datblygu'r polisi hwnnw.

**Dylai'r gwasanaethau tân ac achub gyhoeddi tystysgrifau diogelwch tân.**

Yr ydym yn anghytuno; cyflwynwyd yr FSO yn 2005 i ddisodli Deddf Rhagofalon Tân 1971, a oedd wedi rhagnodi'r gofyniad am dystysgrifau diogelwch tân. Rydyn ni'n credu mai personau cyfrifol sydd yn y sefyllfa orau i ystyried y risgiau tân mewn adeiladau maen nhw'n eu rheoli ac felly, mae'r cyfrifoldeb yn gwbl briodol, ar eu hysgwyddau nhw.

**Dryswch rhwng y personau 'atebol' a'r rhai 'cyfrifol', sydd â chyfrifoldebau gwahanol; dim sôn am y person atebol yn yr ymgynghoriad hwn.**

Dim ond yn Lloegr y bydd Erthygl 22B yr FSO, fel y'i mewnosodwyd gan adran 156 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022, yn berthnasol; mae'r cyfeiriad at bersonau atebol, felly, yn berthnasol i Loegr yn unig.

**Mynnu bod personau cyfrifol yn cynnal asesiad risg tân o fewn ysbeidiau rhesymol; ar hyn o bryd nid oes gofyniad o dan Adran 156 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022.**

Mae'n dal i fod yn rheidrwydd i bersonau cyfrifol wneud asesiad addas a digonol o'r risgiau yn eu hadeilad ac adolygu'r asesiad yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol, yn enwedig lle mae rheswm i amau nad yw'n ddilys mwyach neu lle bu newidiadau i'r adeilad ers yr asesiad diwethaf (Erthygl 9 yr FSO). Roedd ein cynigion ar gyfer y Papur Gwyn yn cynnwys deddfu bod yr asesiad risg tân yn cael ei gynnal neu ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, ac ar ôl i waith mawr i'r safle (a oedd angen caniatâd cynllunio a/neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu) gael ei wneud.

**Nid yw fformatau safonol ar gyfer asesiadau risg tân yn ddymunol.**

Nid ydym yn bwriadu mabwysiadu fformat safonol ar gyfer asesiadau risg tân, er bod llawer o aseswyr risg tân a phersonau cyfrifol yn ei chael yn ddefnyddiol defnyddio un o'r templedi sydd ar gael. Mae'r rhain yn rhoi sicrwydd bod yr asesiad wedi bod yn drylwyr ac yn drefnus. Fodd bynnag, byddwn yn cyhoeddi canllaw byr gyda rhestr wirio i gyd-fynd â'r asesiad risg tân i gefnogi personau cyfrifol gyda'r broses.

**Cefnogi ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar y diffiniad arfaethedig o adeiladau risg uchel; dylid ystyried diweddaru'r FSO yn hyn**

**o beth gan fod y cynigion presennol wedi creu datgysylltiad rhwng deddfwriaeth yr FSO a'r diffiniad arfaethedig o risg uchel.**

Bydd y diffiniad yn cael ei ddefnyddio i gategoreiddio adeiladau sy'n dod o fewn cwmpas y drefn reoleiddio newydd, fwy caeth o ran dylunio ac adeiladu. Nid yw'r diffiniad yn y rheoliadau hynny (pan fônt yn cael eu gwneud) yn gymwys i effeithio ar adeiladau sy'n cael eu meddiannu ac sy'n ddarostyngedig i'r FSO – nad yw'n cynnwys unrhyw ddiffiniad o adeilad risg uchel.

40. Ar ben hynny, roedd 1 o'r Awdurdodau Tân ac Achub yn teimlo bod BSA 2022 yn gyfle i gywiro rhai mân anghysondebau yn yr FSO a oedd wedi achosi rhai problemau hirsefydlog i awdurdodau gorfodi. Roedd un yn ymwneud â chyflwyno hysbysiadau ffurfiol aneffeithiol ac amhriodol pan oedd amgylchiadau'n cyfiawnhau Rhybudd Gwahardd neu Orfodi yn hytrach na Hysbysiad Newid; ac roedd un arall yn ymwneud â gosod dyletswydd ar bersonau cyfrifol i gadw cofnod o waith cynnal a chadw a hyfforddi, nad oedd y FSO yn ei ragnodi ar hyn o bryd.

41. Ailadroddodd ymatebydd arall ei ymateb i'n Papur Gwyn a oedd yn tynnu sylw at y ffaith y dylai cwmpas y drefn newydd ar gyfer diogelwch adeiladau yng Nghymru gynnwys pob adeilad sy'n fwy na 11m/tri llawr (gan gynnwys, er enghraifft, gwestai a swyddfeydd); a phob adeilad sydd â deiliaid agored i niwed, beth bynnag fo'i uchder; gan gynnwys ysbytai, cartrefi gofal, tai gwarchod, ysgolion a lleoliadau adloniant. Cyfeiriodd ymatebydd arall at asesiad risg PAS79 fel yr arfer gorau.

42. Yn olaf, roedd 1 o'r ymatebwyr yn pryderu na fyddai'r dyletswyddau newydd gweithio'n ymarferol, yn benodol y ddyletswydd ar bersonau cyfrifol i gydweithredu â phersonau cyfrifol eraill a holodd a oedd yn ofyniad cyfreithiol. Roeddent hefyd yn mynegi pryderon ynghylch rhoi dirwyon diderfyn gan fod hynny'n ymddangos yn anghymesur o'i gymharu â chosbau eraill am droseddau. Cyfeiriodd yr un ymatebydd at gynigion eraill Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar fusnesau treftadaeth, twristiaeth a lletygarwch ac roedd yn annog Llywodraeth Cymru i fod yn ymwybodol o'r canlyniadau i fusnesau wrth gyflwyno nifer o newidiadau mewn cyfnod byr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

43. Rydym yn croesawu'r sylwadau ychwanegol gan y rhai a ymatebodd i gwestiwn 7. Nod cyffredinol y dyletswyddau newydd ar bersonau cyfrifol yw gwella diogelwch tân ym mhob adeilad y mae'r FSO yn berthnasol iddo er mwyn i bawb sy'n byw neu sy'n gweithio ynddynt allu gwneud hynny'n ddiogel. Ar y sail honno, rydym yn credu bod lefel y dirwyon yn briodol ac maent yn dod â'r meysydd sy'n weddill i lefel dirwyon tebyg eraill yn yr FSO. Bydd y dyletswyddau newydd yn gyfreithiol rwymol ac felly rhaid bod modd eu gorfodi os na chânt eu cyflawni. Bydd union lefel unrhyw ddirwy, wrth gwrs, yn fater i'r llys fel y mae ar hyn o bryd; yn gyffredinol, bydd y llys yn ystyried y niwed gwirioneddol neu bosibl a achosir a beiusrwydd y troseddwr; ac, os yw'r troseddwr yn endid corfforaethol, ei drosiant a'i allu i dalu. Ni welwn fod angen ymyrryd â'r egwyddorion cyfreithiol hyn sydd wedi hen ennill eu plwyf.

44. Mewn ymateb i'r cynnig am newidiadau pellach i'r FSO; dim ond darpariaethau presennol yn y BSA 2022 sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd. Yn

gyffredinol, bydd unrhyw newidiadau pellach i'r FSO yn ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei chyflwyno drwy'r Senedd.